Cyngor sir ddinbych
denbighshire County Council



# **Cynllun Datblygu** Llywodraethwyr

DRAFT

| **Cymeradwywyd y Polisi gan** | **Dyddiad Cymeradwyo** | **Perchennog y Polisi** | **Adolygu** |
|---|---|---|---|
| CSDd JMT | 11/12/2024 | Addysg CSDd | Fel pob dogfen ar y fewnrwyd, mae’r polisi hwn yn destun adolygiad rheolaidd oherwydd newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi. |

| **Rhif y Fersiwn** | **Dyddiad Cymeradwyo** | **Cymeradwywyd gan** | **Diwygiad** |
|---|---|---|---|
| F1.0 | 11/12/2024 | CSDd JMT | Adolygwyd y polisi yn unol â deddfwriaeth a chymeradwywyd Templed Addysg newydd ar gyfer ysgolion CSDd. |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Cyhoeddwyd Gorffennaf 2019

## CYFLWYNIAD

Mae gan Gyrff Llywodraethu gyfrifoldeb sylweddol yn ein system ysgolion sy’n newid yn barhaus. Nhw sy’n gosod gweledigaeth a gwneud penderfyniadau strategol ar gyfer eu hysgolion ac maent yn chwarae rôl hanfodol i sicrhau’r addysg orau bosibl sy’n mynd â phob plentyn mor bell ag sy’n bosibl.

Yn hollbwysig, mae hynny’n golygu creu atebolrwydd cadarn ar gyfer arweinwyr gweithredol drwy ddefnyddio a bod yn gyfarwydd â data gwrthrychol ar berfformiad disgyblion, athrawon, a chyllid er mwyn gofyn y cwestiynau cywir. Mae'n golygu sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu i flaenoriaethau strategol a diogelu'r safonau uchaf o briodoldeb ariannol.   Mae hefyd yn golygu sicrhau bod ysgolion yn paratoi disgyblion ar gyfer bywyd a gweithredu eu dyletswydd Atal a hyrwyddo Gwerthoedd sylfaenol i'w hamddiffyn rhag risgiau eithafiaeth a radicaleiddio.

Dylai’r Corff Llywodraethu weithio ar y cyd â rhieni / gofalwyr, y gymuned leol, a Chyrff Llywodraethu ysgolion eraill er mwyn hyrwyddo gwell addysgu a chwricwlwm ehangach i ddisgyblion, i wella cyfleoedd i athrawon arwain a datblygu ac i wneud y defnydd gorau o gyllid a chwricwlwm ac adnoddau eraill. I wneud hyn bydd y Corff Llywodraethu’n sicrhau bod sgiliau Llywodraethwyr unigol yn cael eu datblygu a’u defnyddio mewn ffordd sy’n briodol i’w rôl.

### Nodau

Bydd y Corff Llywodraethu yn:

- Sicrhau eglurder o ran gweledigaeth, ethos a chyfeiriad strategol;
- Gwneud arweinwyr gweithredol yn atebol am berfformiad addysgol y sefydliad a'i ddisgyblion, a rheoli perfformiad staff; a
- Goruchwylio perfformiad ariannol y sefydliad a sicrhau bod ei gronfeydd yn cael eu defnyddio’n effeithlon.

DRAFT

- Bydd y Corff Llywodraethu’n modelu’r chwe nodwedd allweddol ganlynol i sicrhau bod yr ysgol yn cael ei llywodraethu’n effeithiol:
- Arweinyddiaeth strategol sy'n gosod ac yn hyrwyddo gweledigaeth, ethos a strategaeth.
- Atebolrwydd sy'n codi safonau addysgol a pherfformiad ariannol.
- Penodi pobl â'r sgiliau, y profiad, y rhinweddau a'r gallu cywir.
- Hyrwyddo strwythurau sy'n atgyfnerthu rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n glir.
- Cydymffurfio â gofynion statudol a chontractau.
- Gwerthuso, monitro a gwella ansawdd ac effaith llywodraethu.

## Ymsefydlu a Dysgu Proffesiynol

Bydd y Corff Llywodraethu yn sicrhau bod pob Llywodraethwr newydd yn ymgymryd â phecyn ymsefydlu cynhwysfawr sy’n bodloni’r gofynion a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru a’r Awdurdod Lleol. Mae hyn yn cynnwys dysgu proffesiynol gorfodol ar gyfer Llywodraethwyr newydd a dysgu proffesiynol gorfodol i Lywodraethwyr sy’n ymgymryd â rolau newydd, fel Cadeirydd, Clerc ac ati.

Mae’r trefniadau ymsefydlu a dysgu proffesiynol a amlinellir yn cael eu hadolygu’n barhaus yn dibynnu ar gyngor ac arweiniad newydd gan Lywodraeth Cymru, Llywodraethwyr Cymru a’r Awdurdod Lleol.

Nodau’r Corff Llywodraethu, drwy’r Cadeirydd ac mewn rhai achosion wedi’u dirprwyo i’r Pennaeth (lle bo’n briodol), o ran Ymsefydlu a Dysgu Proffesiynol yw:

- Cynorthwyo Llywodraethwyr newydd trwy neilltuo Mentor  i'w cefnogi yn eu hymgysylltiad dechreuol â'r Corff Llywodraethu
- Croesawu Llywodraethwyr newydd i’r Corff Llywodraethu a’u galluogi i gwrdd ag aelodau eraill.
- Hwyluso ymgysylltiad effeithiol â gwaith y Corff Llywodraethu.
- Annog rhannu cyfrifoldeb a dosbarthu llwyth gwaith y Corff Llywodraethu yn deg.
- Annog Llywodraethwyr newydd i ymweld â’r ysgol i brofi ei hawyrgylch a deall ei hethos.

DRAFT

- Cwrdd â’r Pennaeth, y staff a’r myfyrwyr.
- Esbonio’r bartneriaeth rhwng y Pennaeth, cymuned yr ysgol a’r Corff Llywodraethu.
- Esbonio swyddogaeth a chyfrifoldebau llywodraethwyr.
- Rhoi gwybodaeth gefndirol am yr ysgol a materion cyfredol.
- Caniatáu i lywodraethwyr newydd holi cwestiynau am eu rôl a/neu’r ysgol.
- Esbonio sut mae’r Corff Llywodraethu a’i bwyllgor yn gweithio
- Caniatáu i Lywodraethwyr newydd ymuno â phwyllgor(au) o’u dewis.

## Pecyn Hunanwerthuso Digidol y Corff Llywodraethu

Mae'r pecyn gwaith electronig yn eich galluogi i adolygu'r ffordd y mae eich corff llywodraethu'n gweithio i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae hon yn ddarpariaeth arloesol sy’n seiliedig ar fframwaith arolygu Estyn a fydd yn helpu eich corff llywodraethu i wella ei wybodaeth a’i effeithlonrwydd mewn modd syml. Gellir uwchlwytho dogfennau allweddol yn hawdd a’u rhannu ag aelodau’r llywodraethwyr. Gellir cwblhau rhannau o’r pecyn gwaith ar unrhyw adeg sy’n gyfleus i’r corff llywodraethu.

Mae rhagolwg ar gael trwy ddilyn y ddolen YouTube isod

https://youtu.be/no3UKbzbOEg

Mae modd i bob ysgol yn Sir Ddinbych gael mynediad at y Pecyn Gwaith, cysylltwch âGovernors@denbighshire.gov.uk i drefnu hyn.

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Crëwyd ar** | |
| **Diweddarwyd ddiwethaf ar** | |
| **Mabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethu Llawn ar** | |
| **Dyddiad adolygu a drefnwyd** | |

| | |
|---|---|
| **Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr a dyddiad** | |

DRAFT

# TEMPLED CYNLLUN GWEITHREDU

DRAFT

# LLYWODRAETHWYR

DRAFT

## TEMPLED CYNLLUN GWEITHREDU LLYWODRAETHWYR

Enghreifftiau yn unig yw’r teitlau a’r cynnwys ac mae’n rhaid i ysgolion unigol gwblhau cynllun yn seiliedig ar eu hanghenion a’u gofynion unigol.

| Cam Gweithredu | Pwy | Pryd | Adnoddau angenrheidiol | Diweddariad | Meini Prawf Llwyddiant | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Datblygu rôl strategol llywodraethwyr** | | | | | | |
| Sicrhau bod llywodraethwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau hanfodol i’r weithdrefn ddiogelu. | Yr holl Lywodraethwyr | Hydref 2024 | Cefnogaeth gan Unigolyn Diogelu Dynodedig (DSL) yr Ysgol | | Mae llywodraethwyr yn deall y newidiadau i ganllawiau Cadw Plant yn Ddiogel mewn Addysg a'u rolau a'u cyfrifoldebau eu hunain | Mae llywodraethwyr yn gallu cyflawni eu dyletswyddau diogelu plant yn effeithiol |
| | | | | | | |
| **Sicrhau bod llywodraethwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol** | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| **Her tystiolaeth a rôl gefnogi** | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| **Datblygu ymwybyddiaeth o gryfderau a gwendidau'r ysgol ymhellach** | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |

DRAFT